**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod Y Cyngor

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 6 Mawrth 2024 am 5.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd J P Curtice (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | J A Hale | P Lloyd |
| A Anthony | T J Hennegan | M W Locke |
| M Baker | V A Holland | N L Matthews |
| S Bennett | C A Holley | P M Matthews |
| P N Bentu | B Hopkins | P N May |
| P M Black | D H Hopkins | J D McGettrick |
| A Davis | O G James | A J O'Connor |
| A M Day | Y V Jardine | D Phillips |
| P Downing | A J Jeffery | C L Philpott |
| C R Doyle | D H Jenkins | J E Pritchard |
| M Durke | J W Jones | S Pritchard |
| C R Evans | M H Jones | S J Rice |
| C M J Evans | M Jones | K M Roberts |
| V M Evans | S M Jones | B J Rowlands |
| E W Fitzgerald | S Joy | A H Stevens |
| R Fogarty | S E Keeton | R C Stewart |
| R Francis-Davies | E J King | M S Tribe |
| N Furlong | E T Kirchner | G D Walker |
| L S Gibbard | H Lawson | L V Walton |
| F M Gordon | A S Lewis | T M White |
| K M Griffiths | M B Lewis | R A Williams |
| H J Gwilliam | W G Lewis | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Mark Wade | Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd |
| Ness Young | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): P R Hood-Williams, L James, L R Jones, R D Lewis, F D O'Brien, R V Smith, L G Thomas a/ac W G Thomas

## 95. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib y gall fod gan gynghorwyr a swyddogion ar yr agenda.

Atgoffodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gynghorwyr a swyddogion y dylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" dim ond os oes gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorwyr S Bennett, R Francis-Davies, T J Hennegan, M B Lewis, P Lloyd, S J Rice a T M White gysylltiad personol â Chofnod 102 "Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 - 2027/28".

2) Datganodd y Cynghorwyr S Bennett, P N Bentu, J P Curtice, R Francis-Davies, T J Hennegan, M B Lewis, P Lloyd, S J Rice a T M White gysylltiad personol â Chofnod 103 "Cyllideb Refeniw 2024/25".

3) Datganodd y Cynghorwyr M Baker a T J Hennegan gysylltiad personol â Chofnod 105 "Cyllideb Refeniw'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2024/25".

4) Datganodd y Cynghorwyr P M Black, S Bennett, A Davies, A M Day, P Downing, K M Griffiths, H J Gwilliam, C A Holley, J W Jones, M H Jones, S M Jones, P Lloyd, D Phillips, M S Tribe a T M White gysylltiad personol â Chofnod 106 "Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2023/24- 2028/29".

5) Datganodd y Cynghorydd J A Hale gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 106 "Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2023/24- 2028/29" a Chofnod 112 "Cwestiynau Cynghorwyr (C1)" a gadawodd y cyfarfod cyn trafod yr eitemau.

6) Datganodd y Cynghorwyr M Baker a T J Hennegan gysylltiad personol â Chofnod 107 "Cyfrif Refeniw Tai - Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2023/24- 2027/28".

7) Datganodd y Cynghorwyr K M Griffiths, S M Jones ac M S Tribe gysylltiad personol â Chofnod 108 "Penderfyniad Statudol - Penderfyniadau i'w Gwneud yn Unol â Rheoliadau Pennu Treth y Cyngor 2022/25".

8) Datganodd y Cynghorwyr H J Gwilliam, B J Rowlands ac A H Stevens gysylltiad personol â Chofnod 112 "Cwestiynau Cynghorwyr".

## 96. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r cofnodion canlynol a'u llofnodi fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2024.

**97. Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.**

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyfreithiol adroddiad gwybodaeth a oedd yn nodi'r ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng nghyfarfod cyffredin diwethaf y Cyngor.

**98. Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.**

**a) Cydymdeimladau**

**i) Beverley Smith, Tad y Cynghorydd Robert V Smith**

Cyfeiriodd yr Aelod Llywyddol gyda thristwch at farwolaeth Beverley Smith, tad y Cynghorydd R V Smith. Diolchodd y Cynghorydd Smith a'i deulu i'r Cynghorwyr o bob ochr i'r Siambr ac i'r Swyddogion am eu dymuniadau caredig.

Safodd pawb a oedd yn bresennol mewn distawrwydd fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.

**99. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.**

**a) Diwrnod Rhyngwladol y Merched - 8 Mawrth 2024**

Diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r Cynghorwyr hynny a oedd yn gwisgo dillad porffor i gefnogi Diwrnod Rhyngwladol y Merched a gynhelir ar 8 Mawrth 2024.

**b) Cwtch Mawr, Abertawe – Banc Pob Dim Cyntaf Cymru**

Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei fod wedi bod i agoriad Banc Pob Dim cyntaf Cymru yn gynharach y diwrnod hwnnw ochr yn ochr â Gordon Brown (cyn Brif Weinidog) a Mark Drakeford (Prif Weinidog Cymru).

Dywedodd fod banc dillad, banc dillad gwely, banc babanod, banc hylendid a banc celfi mewn un lle. Mae'r syniad yn un syml: mae gan gwmnïau'r nwyddau dros ben sydd eu hangen ar bobl ac mae elusennau lleol yn adnabod y bobl sydd eu hangen. Mae'r fenter Banc Pob Dim yn cysylltu'r ddau i leihau effeithiau tlodi a gwastraff amgylcheddol.

**c) Abertawe - Dinas â digon o ddiffibrilwyr gyntaf y DU**

Croesawodd Arweinydd y Cyngor Henry Gilbert, Simon Tucker a Peter Harris o Heartbeat Trust UK. Dywedodd fod gan Abertawe dros 450 o ddiffibrilwyr sy'n hygyrch i'r cyhoedd a thros 200 o ddiffibrilwyr a oedd ar gael mewn lleoliadau eraill.

Dywedodd fod Abertawe wedi cael ei chydnabod yn ddiweddar fel 'Dinas â digon o diffibrilwyr gyntaf y DU'. Roedd nifer o fywydau eisoes wedi’u hachub oherwydd y diffibrilwyr yn Abertawe.

**100. Cwestiynau gan y Cyhoedd.**

Gofynnodd tri aelod o'r cyhoedd gwestiynau. Roedd y cwestiynau'n ymwneud â Chofnod 103 "Cyllideb Refeniw 2024/25" a Chofnod 112 "Cwestiynau Cynghorwyr - Cwestiwn 1".

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor. Dywedodd y byddai Ben Houghton yn derbyn ymatebion ysgrifenedig oni bai fod sensitifrwydd masnachol yn atal hynny mewn perthynas â'i gwestiynau ynghylch Skyline.

## 101. Adroddiadau Cyllideb - Trosolwg o'r Cyflwyniad.

Rhoddodd y Swyddog Adran 151 adroddiad technegol bras mewn perthynas â'r adroddiadau am y gyllideb. Gofynnodd y Cynghorwyr gwestiynau technegol cyffredinol.

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor adroddiad bras am y gyllideb.

Dywedodd yr aelod llywyddol y dylid gofyn cwestiynau penodol ynghylch adroddiadau unigol a'u trafod pan fyddai'r adroddiad hwnnw'n cael ei drafod.

## 102. Cynllunio Ariannol Tymor Canolig 2025/26 - 2027/28.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi rhesymeg a diben y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, gan fanylu ar y prif dybiaethau ariannu ar gyfer y cyfnod ac yn cynnig strategaeth i gynnal cyllideb gytbwys.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 i 2027/28 fel sail am gynllunio ariannol ar gyfer gwasanaethau'r dyfodol.

## 103. Cyllideb Refeniw 2024/25.

Nododd yr Aelod Llywyddol y broses a fyddai'n cael ei dilyn ar gyfer yr eitem hon.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 yr adroddiad a oedd yn cynnwys diweddariad bach ynghylch ffigur setliad terfynol y grant llywodraeth leol. Gofynnodd y Cynghorwyr gwestiynau technegol i'r Swyddog Adran 151. Ymatebodd Swyddog Adran 151.

Cynigiwyd yr adroddiad gwreiddiol gan y Cynghorydd R C Stewart. Eiliwyd gan y Cynghorydd A S Lewis.

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod dau ddiwygiad i'r gyllideb wedi dod i law. Un gan Grŵp Uplands ac un gan y Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol/Grŵp Annibynnol y Gwrthbleidiau.

**Diwygiad Grŵp Uplands**
Cynigiwyd gan y Cynghorydd S J Rice. Eiliwyd gan y Cynghorydd P N May.

Dyma'r diwygiad a gynigiwyd:

*Tynnu'r £0.7m ychwanegol a ddyrannwyd i'r Gronfa Wrth Gefn TGCh Addysg ac yn lle hynny dyrannu £0.7m ychwanegol i'r tîm Priffyrdd PATCH blaenorol.*

Yn dilyn dadl a phleidlais, ni chafodd y diwygiad ei gefnogi.

**Diwygiad y Democratiaid Rhyddfrydol/Grŵp Annibynnol y Gwrthbleidiau**
Cynigiwyd gan y Cynghorydd P M Black. Eiliwyd gan y Cynghorydd E W Fitzgerald.

Dyma'r diwygiad a gynigiwyd:

*Lleihau dros dro'r dreth y cyngor arfaethedig unwaith o 5.99% i 4.99%. Bydd cost y gostyngiad yn nhreth y cyngor yn costio tua £1.169 miliwn net o CTRS (Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor) a bydd yn cael ei ariannu drwy dynnu arian o'r Gronfa Cyfartaliad Cyfalaf unwaith. Mae'r swyddog A151 yn cynghori y byddai angen adfer y gostyngiad yn llawn a'i dalu yn nôl erbyn y flwyddyn ganlynol, gyda phopeth yn gyfartal, er gan gydnabod y bydd cyllideb y flwyddyn ganlynol yn destun trafodaeth a dadl bellach ar wahân.*

*Cyflwyno parcio am ddim ar feysydd parcio awyr agored wedi'u targedu yng nghanol y ddinas rhwng 10.00am a 3.00pm o ddydd Llun i ddydd Iau (h.y. cael gwared ar ffïoedd mewn 3 maes parcio presennol yng nghanol y ddinas - Stryd Rhydychen, Pell Street a Northampton Lane). Amcangyfrifir mai tua £0.058 miliwn fydd cost y newidiadau i'r trefniadau parcio, gan gynnwys mân addasiadau a ragwelir i ddefnydd ac arferion parcio mewn mannau eraill. Telir y gost drwy dynnu arian o'r Gronfa Cyfartaliad Cyfalaf.* Byddai'r ffïoedd parcio ceir hynny wedyn yn dychwelyd y flwyddyn ganlynol.

Yn dilyn dadl a phleidlais, ni chafodd y diwygiad ei gefnogi.

**Cynnig annibynnol**
Cynhaliwyd trafodaeth ar y cynnig annibynnol.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r Gyllideb Refeniw ar gyfer 2024/25 fel y'i diwygiwyd ac y manylwyd arni yn Atodiad A yr adroddiad.

2) Cymeradwyo Gofyniad y Gyllideb ac ardoll Treth y Cyngor ar gyfer 2/2024 fel y nodwyd yn Adran 9 yr adroddiad.

**104. Rheol 4 Gweithdrefn y Cyngor "Ysmygu/Lluniaeth/Ffonau Symudol/Egwyl.**

Yn unol â Rheol 4 Gweithdrefn y Cyngor gohiriodd yr Aelod Llywyddol y cyfarfod er mwyn hwyluso egwyl tŷ bach o 10 munud.

**105. Cyfrif Refeniw Tai (CRT) - cyllideb refeniw 2024/25.**

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig Cyllideb Refeniw ar gyfer 2024/25 ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai.

**Penderfynwyd** cymeradwy'r cynigion ar gyfer y Gyllideb Refeniw fel y nodwyd yn Adran 4 yr adroddiad.

## 106. Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2023/24 - 2028/29.

Nododd yr Aelod Llywyddol y broses a fyddai'n cael ei dilyn ar gyfer yr eitem hon.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig cyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2023/24 a chyllideb gyfalaf ar gyfer 2024/25 - 2028/29.

Cynigiwyd yr adroddiad gwreiddiol gan y Cynghorydd R C Stewart. Eiliwyd gan y Cynghorydd A S Lewis.

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod dau ddiwygiad i'r gyllideb wedi dod i law. Un o'r Grŵp Llafur ac un o Grŵp Uplands.

**Diwygiad y Grŵp Llafur**
Cynigiwyd gan y Cynghorydd R C Stewart. Eiliwyd gan y Cynghorydd A S Lewis.

Dyma'r diwygiad a gynigiwyd:

*Tynnu taliad untro gwerth £1m o'r gronfa cyfartaliad cyfalaf a defnyddio'r £2m presennol a ddyrannwyd o'r gronfa Yswiriant i ddarparu cyfanswm o £3m yn ychwanegol ar gyfer gwaith cysylltiedig â phriffyrdd ychwanegol eleni.*

*Tynnu £1m o'r gronfa cyfartaliad cyfalaf i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau cymunedol ychwanegol. Byddai'r cynllun yn darparu adnoddau ychwanegol i gynghorwyr er mwyn cefnogi blaenoriaethau cymunedol yn eu wardiau.*

*Tynnu £1m o'r gronfa cyfartaliad cyfalaf i ddechrau'r broses o uwchraddio cyfleusterau ystafelloedd newid ar draws y sir, er mwyn sicrhau y gall merched yn ogystal â bechgyn eu defnyddio.*

Yn dilyn dadl a phleidlais, cefnogwyd y diwygiad. Daeth y diwygiad yn gynnig annibynnol.

**Diwygiad Grŵp Uplands**
Cynigiwyd gan y Cynghorydd S J Rice. Eiliwyd gan y Cynghorydd P N May.

Dyma'r diwygiad a gynigiwyd:

*Cael gwared ar yr holl wariant ar Skyline ar gyfer y dyfodol (£4.1m).*
*Cael gwared ar gyfleuster maes parcio Bro Tawe (£3.1m).*

*Ail-fuddsoddi'r £7.2m a arbedwyd er mwyn:*
- *rhoi £5m yn ychwanegol i ailwynebu cerbytffyrdd.*
- *ychwanegu at Gronfa Effeithlonrwydd Ynni ac Ansawdd Aer Ysgolion - £2.2m.*

Yn dilyn dadl a phleidlais, ni chafodd y diwygiad ei gefnogi.

**Cynnig annibynnol**
Cynhaliwyd trafodaeth ar y cynnig annibynnol.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2023/24 a'r cyllideb gyfalaf ar gyfer 2024/2025 – 2028/29 fel y'i diwygiwyd ac fel y nodir yn Atodiadau A, B C, CH, D, Dd ac E yr adroddiad.

## 107. Cyfrif Refeniw Tai - Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2023/24 - 2027/28.

Nododd yr Aelod Llywyddol y broses a fyddai'n cael ei dilyn ar gyfer yr eitem hon.

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig cyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2023/24 a chyllideb gyfalaf ar gyfer 2024/25 - 2027-28 ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai.

Cynigiwyd yr adroddiad gwreiddiol gan y Cynghorydd A S Lewis. Eiliwyd gan y Cynghorydd R C Stewart.

Dywedodd yr Aelod Llywyddol fod diwygiad cyllidebol wedi'i dderbyn gan Grŵp Uplands.

**Diwygiad Grŵp Uplands**
Cynigiwyd gan y Cynghorydd S J Rice. Eiliwyd gan y Cynghorydd P N May.

Dyma'r diwygiad a gynigiwyd:

*Rhagor o Gartrefi - Caffaeliadau - Dwyn gwariant rhagamcanol ar gyfer 25/26 a 26/27 ymlaen i 24/25 h.y. cynyddu gwariant rhagamcanol o £3m i £6m yn 24/25.*

Yn dilyn dadl a phleidlais, ni chafodd y diwygiad ei gefnogi.

**Cynnig annibynnol**
Cynhaliwyd trafodaeth ar y cynnig annibynnol.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng cynlluniau a'r cyllidebau diwygiedig ar gyfer cynlluniau yn 2023/24.

2) Cymeradwyo cynigion cyllidebol 2024/25 – 2027/28.

3) Cymeradwyo'r cynlluniau unigol fel y'u dangosir yn Atodiad B yr adroddiad sydd wedi'u rhaglennu dros y cyfnod 4 blynedd fel yr amlinellir yn yr adroddiad, a chymeradwyo'r goblygiadau ariannol ar gyfer ariannu dros y 4 blynedd.

4) Cymeradwyo'r ymagwedd blaenoriaethu at osod y rhaglen waith sy'n cael ei nodi yn yr adroddiad.

**108. Penderfyniad statudol - dylid gwneud penderfyniadau yn unol â'r rheoliadau wrth bennu Treth y Cyngor ar gyfer 2024/25.**

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn amlinellu sawl penderfyniad statudol i'w gwneud yn unol â'r Rheoliadau o ran gosod Treth y Cyngor ar gyfer 2024-2025.

O ganlyniad i'r diwygiadau a wnaed i Gyllideb Refeniw 2024-2025 a hefyd y newid i'r setliad gan Lywodraeth Cymru, newidiwyd y ffigurau yn y penderfyniad statudol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi a mabwysiadu'r penderfyniadau statudol fel y'u hamlinellwyd.

2) Nodi bod y cyngor, yn ei gyfarfod ar 7 Rhagfyr 2023, wedi cyfrifo'r symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn 2024/2025 yn unol â Rheoliadau a wnaed o dan Adran 33(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd):

a) 93,803 oedd y swm a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol â Rheoliad 3 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth y Cyngor) (Cymru) 1995, fel y'i diwygiwyd, fel ei sylfaen Treth y Cyngor am y flwyddyn.

b) Rhannau o ardal y cyngor:

| | |
|---|---:|
| Llandeilo Ferwallt | 2,014 |
| Clydach | 2,655 |
| Gorseinon | 3,322 |
| Tre-gŵyr | 2,015 |
| Pengelli a Waungron | 451 |
| Llanilltud Gŵyr | 347 |
| Cilâ | 2,173 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 519 |
| Llangyfelach | 969 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,599 |
| Llanrhidian Isaf | 343 |
| Llwchwr | 3,497 |
| Mawr | 762 |
| Y Mwmbwls | 10,072 |
| Penlle'r-gaer | 1,538 |
| Pennard | 1,544 |
| Pen-rhys | 484 |
| Pontarddulais | 2,365 |
| Pont-lliw a Thir-coed | 1,037 |
| Porth Einon | 470 |
| Reynoldston | 312 |
| Rhosili | 196 |
| Y Crwys | 709 |
| Cilâ Uchaf | 593 |

dyma'r symiau a gyfrifwyd gan y cyngor, yn unol â Rheoliad 6 y Rheoliadau fel symiau ei sylfaen Treth y Cyngor ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal y mae eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

3) Caiff y symiau canlynol eu cyfrifo gan y cyngor ar gyfer y flwyddyn 2024/2025 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:

(a) £917,266,676 yw cyfanswm y symiau y mae'r cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adrannau 32(2)(a) i (d) o'r Ddeddf.

(b) £326,437,690 yw cyfanswm y symiau y mae'r cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodir yn Adrannau 32(3)(a), 32(3)(c) a 32(3a) o'r Ddeddf.

(c) £590,828,986 yw'r gwahaniaeth rhwng y cyfanswm yn (3)(a) uchod a'r cyfanswm yn 3(b) uchod, ac mae'n swm a gyfrifwyd gan y cyngor yn unol ag Adran 32(4) o'r Ddeddf fel ei ofyniad cyllidebol ar gyfer y flwyddyn.

(ch) £434,602,822 yw cyfanswm y symiau y mae'r cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy i Gronfa'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chyfraddau annomestig wedi'u hailddosbarthu, a'r Grant Cynnal Refeniw heb gymorth ardrethi annomestig dewisol.

(d) £1,665.47 yw'r swm yn (3)(c) heb y swm yn (3)(d) uchod, wedi'i rannu gan y swm yn (2)(a) uchod, a gyfrifwyd gan y cyngor yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, fel swm sylfaenol ei Dreth y Cyngor am y flwyddyn.

(dd) £2,205,986 yw cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeiriwyd atynt yn Adran 34(1) o'r Ddeddf.

(e) £1,641.95 yw'r swm yn (3)(e) heb y canlyniad a roddir drwy rannu'r swm yn (3)(f) uchod â'r swm yn (2)(a) uchod, a gyfrifwyd gan y cyngor yn unol ag Adran 34(2) o'r Ddeddf, fel swm sylfaenol Treth y Cyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal nad oes unrhyw eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

(f) Rhannau o Ardal y cyngor:

| | |
|---|---:|
| Llandeilo Ferwallt | 1,693.59 |
| Clydach | 1,706.23 |
| Gorseinon | 1,686.95 |
| Tre-gŵyr | 1,659.17 |
| Pengelli a Waungron | 1,683.90 |
| Llanilltud Gŵyr | 1,663.79 |
| Cilâ | 1,652.30 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 1,657.17 |

| | |
|---|---|
| Llangyfelach | 1,672.91 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,754.80 |
| Llanrhidian Isaf | 1,662.36 |
| Llwchwr | 1,684.72 |
| Mawr | 1,785.14 |
| Y Mwmbwls | 1,723.32 |
| Penlle'r-gaer | 1,651.05 |
| Pennard | 1,704.13 |
| Pen-rhys | 1,668.29 |
| Pontarddulais | 1,707.75 |
| Pont-lliw a Thir-coed | 1,680.57 |
| Porth Einon | 1,658.97 |
| Reynoldston | 1,682.01 |
| Rhosili | 1,675.11 |
| Y Crwys | 1,684.37 |
| Cilâ Uchaf | 1,673.99 |

dyma'r symiau a roddwyd drwy adio'r swm yn (3)(e) uchod a symiau'r eitemau arbennig sy'n ymwneud ag anheddau yn y rhannau hynny o ardal y cyngor a grybwyllwyd uchod, sydd wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn (2)(b) uchod, a'u cyfrifo gan y cyngor yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, fel symiau sylfaenol Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn i anheddau yn rhannau hynny o'i ardal y mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol iddynt.

(i) Rhannau o ardal y cyngor:

| | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Llandeilo Ferwallt | 1,129.06 | 1,317.23 | 1,505.41 | 1,693.59 | 2,069.95 | 2,446.30 | 2,822.65 | 3,387.18 | 3,951.71 |
| Clydach | 1,137.48 | 1,327.07 | 1,516.65 | 1,706.23 | 2,085.39 | 2,464.56 | 2,843.71 | 3,412.46 | 3,981.21 |
| Gorseinon | 1,124.63 | 1,312.07 | 1,499.51 | 1,686.95 | 2,061.83 | 2,436.71 | 2,811.58 | 3,373.90 | 3,936.22 |
| Tre-gŵyr | 1,106.11 | 1,290.46 | 1,474.82 | 1,659.17 | 2,027.88 | 2,396.58 | 2,765.28 | 3,318.34 | 3,871.40 |
| Pengelli a Waungron | 1,122.60 | 1,309.70 | 1,496.80 | 1,683.90 | 2,058.10 | 2,432.30 | 2,806.50 | 3,367.80 | 3,929.10 |
| Llanilltud Gŵyr | 1,109.19 | 1,294.06 | 1,478.92 | 1,663.79 | 2,033.52 | 2,403.26 | 2,772.98 | 3,327.58 | 3,882.18 |
| Cilâ | 1,101.53 | 1,285.12 | 1,468.71 | 1,652.30 | 2,019.48 | 2,386.66 | 2,753.83 | 3,304.60 | 3,855.37 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 1,104.78 | 1,288.91 | 1,473.04 | 1,657.17 | 2,025.43 | 2,393.69 | 2,761.95 | 3,314.34 | 3,866.73 |
| Llangyfelach | 1,115.27 | 1,301.15 | 1,487.03 | 1,672.91 | 2,044.67 | 2,416.43 | 2,788.18 | 3,345.82 | 3,903.46 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,169.86 | 1,364.84 | 1,559.82 | 1,754.80 | 2,144.76 | 2,534.72 | 2,924.66 | 3,509.60 | 4,094.54 |
| Llanrhidian Isaf | 1,108.24 | 1,292.94 | 1,477.65 | 1,662.36 | 2,031.78 | 2,401.19 | 2,770.60 | 3,324.72 | 3,878.84 |
| Llwchwr | 1,123.14 | 1,310.34 | 1,497.53 | 1,684.72 | 2,059.10 | 2,433.49 | 2,807.86 | 3,369.44 | 3,931.02 |
| Mawr | 1,190.09 | 1,388.44 | 1,586.79 | 1,785.14 | 2,181.84 | 2,578.54 | 2,975.23 | 3,570.28 | 4,165.33 |
| Y Mwmbwls | 1,148.88 | 1,340.36 | 1,531.84 | 1,723.32 | 2,106.28 | 2,489.24 | 2,872.20 | 3,446.64 | 4,021.08 |
| Penlle'r-gaer | 1,100.70 | 1,284.15 | 1,467.60 | 1,651.05 | 2,017.95 | 2,384.85 | 2,751.75 | 3,302.10 | 3,852.45 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pennard | 1,136.08 | 1,325.43 | 1,514.78 | 1,704.13 | 2,082.83 | 2,461.53 | 2,840.21 | 3,408.26 | 3,976.31 |
| Pen-rhys | 1,112.19 | 1,297.56 | 1,482.92 | 1,668.29 | 2,039.02 | 2,409.76 | 2,780.48 | 3,336.58 | 3,892.68 |
| Pontarddulais | 1,138.50 | 1,328.25 | 1,518.00 | 1,707.75 | 2,087.25 | 2,466.75 | 2,846.25 | 3,415.50 | 3,984.75 |
| Pont-lliw a Thir-coed | 1,120.38 | 1,307.11 | 1,493.84 | 1,680.57 | 2,054.03 | 2,427.49 | 2,800.95 | 3,361.14 | 3,921.33 |
| Porth Einon | 1,105.98 | 1,290.31 | 1,474.64 | 1,658.97 | 2,027.63 | 2,396.29 | 2,764.95 | 3,317.94 | 3,870.93 |
| Reynoldston | 1,121.34 | 1,308.23 | 1,495.12 | 1,682.01 | 2,055.79 | 2,429.57 | 2,803.35 | 3,364.02 | 3,924.69 |
| Rhosili | 1,116.74 | 1,302.86 | 1,488.99 | 1,675.11 | 2,047.36 | 2,419.61 | 2,791.85 | 3,350.22 | 3,908.59 |
| Y Crwys | 1,122.91 | 1,310.06 | 1,497.22 | 1,684.37 | 2,058.68 | 2,432.98 | 2,807.28 | 3,368.74 | 3,930.20 |
| Cilâ Uchaf | 1,115.99 | 1,301.99 | 1,487.99 | 1,673.99 | 2,045.99 | 2,417.99 | 2,789.98 | 3,347.98 | 3,905.98 |
| | | | | | | | | | |
| Holl rannau eraill ardal y Cyngor | 1,094.63 | 1,277.07 | 1,459.51 | 1,641.95 | 2,006.83 | 2,371.71 | 2,736.58 | 3,283.90 | 3,831.22 |

dyma'r symiau a gyfrifwyd drwy luosi'r symiau yn (3)(g) a (3)(h) uchod â'r nifer sydd, yn ôl cyfanswm y boblogaeth a nodwyd yn Adran 5 (1) Y Ddeddf, yn gymwys i anheddau a restrir mewn band prisio penodol, wedi'u rhannu â'r nifer sydd, yn y gyfran honno, yn gymwys i anheddau a restrir ym mand D a gyfrifir gan y cyngor yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, fel y symiau i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â chategorïau'r anheddau a restrir yn y bandiau prisio gwahanol;

4) Dylid nodi bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru wedi nodi'r symiau canlynol ar gyfer y flwyddyn 2024/2025 mewn praeseptau a gyflwynwyd i'r cyngor yn unol ag Adran 40 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod:

| | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru | 235.11 | 274.30 | 313.48 | 352.67 | 431.04 | 509.41 | 587.78 | 705.34 | 822.90 |

5) Ar ôl cyfrifo'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn (3)(l) a (4) uchod, mae'r cyngor, yn unol ag Adran 30(2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth leol 1992, yn gosod, trwy hyn, y symiau canlynol fel y symiau Treth y Cyngor ar gyfer 2024/25 ar gyfer pob un o'r categorïau anheddau a ddangosir isod:

| | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band | Band |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
| | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| Llandeilo Ferwallt | 1,364.17 | 1,591.53 | 1,818.89 | 2,046.26 | 2,500.99 | 2,955.71 | 3,410.43 | 4,092.52 | 4,774.61 |
| Clydach | 1,372.59 | 1,601.37 | 1,830.13 | 2,058.90 | 2,516.43 | 2,973.97 | 3,431.49 | 4,117.80 | 4,804.11 |
| Gorseinon | 1,359.74 | 1,586.37 | 1,812.99 | 2,039.62 | 2,492.87 | 2,946.12 | 3,399.36 | 4,079.24 | 4,759.12 |
| Tre-gŵyr | 1,341.22 | 1,564.76 | 1,788.30 | 2,011.84 | 2,458.92 | 2,905.99 | 3,353.06 | 4,023.68 | 4,694.30 |
| Pengelli a Waungron | 1,357.71 | 1,584.00 | 1,810.28 | 2,036.57 | 2,489.14 | 2,941.71 | 3,394.28 | 4,073.14 | 4,752.00 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanilltud Gŵyr | 1,344.30 | 1,568.36 | 1,792.40 | 2,016.46 | 2,464.56 | 2,912.67 | 3,360.76 | 4,032.92 | 4,705.08 |
| Cilâ | 1,336.64 | 1,559.42 | 1,782.19 | 2,004.97 | 2,450.52 | 2,896.07 | 3,341.61 | 4,009.94 | 4,678.27 |
| Llangynydd, Llanmadog a Cheriton | 1,339.89 | 1,563.21 | 1,786.52 | 2,009.84 | 2,456.47 | 2,903.10 | 3,349.73 | 4,019.68 | 4,689.63 |
| Llangyfelach | 1,350.38 | 1,575.45 | 1,800.51 | 2,025.58 | 2,475.71 | 2,925.84 | 3,375.96 | 4,051.16 | 4,726.36 |
| Llanrhidian Uchaf | 1,404.97 | 1,639.14 | 1,873.30 | 2,107.47 | 2,575.80 | 3,044.13 | 3,512.44 | 4,214.94 | 4,917.44 |
| Llanrhidian Isaf | 1,343.35 | 1,567.24 | 1,791.13 | 2,015.03 | 2,462.82 | 2,910.60 | 3,358.38 | 4,030.06 | 4,701.74 |
| Llwchwr | 1,358.25 | 1,584.64 | 1,811.01 | 2,037.39 | 2,490.14 | 2,942.90 | 3,395.64 | 4,074.78 | 4,753.92 |
| Mawr | 1,425.20 | 1,662.74 | 1,900.27 | 2,137.81 | 2,612.88 | 3,087.95 | 3,563.01 | 4,275.62 | 4,988.23 |
| Y Mwmbwls | 1,383.99 | 1,614.66 | 1,845.32 | 2,075.99 | 2,537.32 | 2,998.65 | 3,459.98 | 4,151.98 | 4,843.98 |
| Penlle'r-gaer | 1,335.81 | 1,558.45 | 1,781.08 | 2,003.72 | 2,448.99 | 2,894.26 | 3,339.53 | 4,007.44 | 4,675.35 |
| Pennard | 1,371.19 | 1,599.73 | 1,828.26 | 2,056.80 | 2,513.87 | 2,970.94 | 3,427.99 | 4,113.60 | 4,799.21 |
| Pen-rhys | 1,347.30 | 1,571.86 | 1,796.40 | 2,020.96 | 2,470.06 | 2,919.17 | 3,368.26 | 4,041.92 | 4,715.58 |
| Pontarddulais | 1,373.61 | 1,602.55 | 1,831.48 | 2,060.42 | 2,518.29 | 2,976.16 | 3,434.03 | 4,120.84 | 4,807.65 |
| Pont-lliw a Thir-coed | 1,355.49 | 1,581.41 | 1,807.32 | 2,033.24 | 2,485.07 | 2,936.90 | 3,388.73 | 4,066.48 | 4,744.23 |
| Porth Einon | 1,341.09 | 1,564.61 | 1,788.12 | 2,011.64 | 2,458.67 | 2,905.70 | 3,352.73 | 4,023.28 | 4,693.83 |
| Reynoldston | 1,356.45 | 1,582.53 | 1,808.60 | 2,034.68 | 2,486.83 | 2,938.98 | 3,391.13 | 4,069.36 | 4,747.59 |
| Rhosili | 1,351.85 | 1,577.16 | 1,802.47 | 2,027.78 | 2,478.40 | 2,929.02 | 3,379.63 | 4,055.56 | 4,731.49 |
| Y Crwys | 1,358.02 | 1,584.36 | 1,810.70 | 2,037.04 | 2,489.72 | 2,942.39 | 3,395.06 | 4,074.08 | 4,753.10 |
| Cilâ Uchaf | 1,351.10 | 1,576.29 | 1,801.47 | 2,026.66 | 2,477.03 | 2,927.40 | 3,377.76 | 4,053.32 | 4,728.88 |
| | | | | | | | | | |
| Holl rannau eraill ardal y Cyngor | 1,329.74 | 1,551.37 | 1,772.99 | 1,994.62 | 2,437.87 | 2,881.12 | 3,324.36 | 3,989.24 | 4,654.12 |

**109. Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Dangosyddion Darbodus/Y Trysorlys, Strategaeth Buddsoddi a Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw 2024/25, Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2023/24 ac Adroddiad Blynyddol 2022/23.**

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Dangosyddion Darbodus, y Strategaeth Buddsoddi a'r Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2024/25 a nodi Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2023/24.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus (Adrannau 2-7 yr adroddiad).

2) Cymeradwyo'r Strategaeth Buddsoddi (Adran 8 yr adroddiad).

3) Cymeradwyo'r Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw (Adran 9 yr adroddiad).

4) Nodi Adolygiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2023/24 (Atodiad H yr adroddiad).

5) Nodi Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2022/23 (Atodiad I yr adroddiad).

**110. Strategaeth Gyfalaf 2024/25- 2028/29.**

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y Strategaeth Gyfalaf sy'n cyfeirio ac yn llywio'r rhaglen gyfalaf chwe blynedd.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Strategaeth Gyfalaf 2023/24 - 2028/29.

**111. Cynigion enwi.**

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth adroddiad a oedd yn ceisio enwi'r parc arfordirol newydd ger Arena Abertawe yn ffurfiol fel Parc Amy Dillwyn.

Roedd Amy Dillwyn (1845-1935) yn eicon poblogaidd o fywyd Abertawe, a oedd yn enwog am ei dull anghonfensiynol, ei rhyddfrydiaeth gadarn a'i ffeministiaeth ddidwyll. Ysgrifennodd chwe nofel; roedd ei themâu'n cynnwys ffeministiaeth a diwygiad cymdeithasol. Ymunodd ag Undeb Cenedlaethol Cymdeithasau'r Bleidlais i Ferched ac ymgyrchodd dros bleidleisiau i fenywod.

**Penderfynwyd** enwi'r parc arfordirol ger Arena Abertawe fel Parc Amy Dillwyn.

**112. Cwestiynau gan y Cynghorwyr.**

**1) 'Cwestiynau Atodol' Rhan A**

Cyflwynwyd dau ar bymtheg (17) o 'Gwestiynau Atodol' ar gyfer Rhan A. Ymatebodd Aelod(au) perthnasol y Cabinet ar ffurf atebion ysgrifenedig a gynhwyswyd yng Ngwŷs y Cyngor.

Dangosir y cwestiynau atodol hynny yr oedd angen ymateb ysgrifenedig arnynt isod.

**Cwestiwn 1**
Gofynnodd y Cynghorydd S J Rice *"Pwy sydd wedi bod yn gwario'r arian a glustnodwyd ar gyfer prosiect Skyline. A yw'n cael ei wario gan y Cyngor neu a yw'n cael ei drosglwyddo i Skyline iddynt ei wario mewn rhyw ffordd?"*

Dywedodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**Cwestiwn 3**
Gofynnodd y Cynghorydd S J Rice *"Ar ôl edrych ar y Rhaglen Gyfalaf Addysg a gwahaniaeth o fewn y rhaglen, wrth gymharu adroddiadau am y gyllideb y llynedd ag eleni, mae'n ymddangos bod gwahaniaeth sylweddol wedi bod yn y Rhaglen Gyfalaf Addysg. Pam mae Bryn Tawe, Tre-gŵyr, Casllwchwr a Phontybrenin yn wynebu oedi o tua 2 flynedd o ran eu hadeiladu?"*

Dywedodd Arweinydd y Cyngor y darperir ymateb ysgrifenedig.

**Cwestiwn 9**
Gofynnodd y Cynghorydd P N May *“A oes modd cael copi o’r hyn sydd wedi’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â’r cynnig Teithio Llesol ar gyfer Gower Road, Sketty Road, Uplands Crescent a Walter Road gan gynnwys llwybr beicio dwy ffordd?”*

Dywedodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

**2) ‘Cwestiynau nad oes angen Cwestiynau Atodol ar eu cyfer' Rhan B**

Cyflwynwyd tri (3) 'chwestiwn nad oedd angen cwestiynau atodol' ar eu cyfer Rhan B.

Daeth y cyfarfod I ben am 9.07 pm

**Cadeirydd**